**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

04 Medi 2023

Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS): Cynnwys gwydr

Annwyl Julie,

Gweler yn atodedig ohebiaeth a gawsom oddi wrth Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru, yn nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud ar ryngweithredu'r cynlluniau DRS mewn gwahanol rannau o'r DU, ond sy'n nodi pryderon difrifol ynghylch yr effaith economaidd bosibl o gynnwys gwydr yn y Cynllun Dychwelyd Ernes arfaethedig yng Nghymru.

Yn benodol, mae FDF Cymru yn gofyn a yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad effaith economaidd llawn o'r cynlluniau a'r effaith y gallai ei chael ar economi Cymru. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn pe gallech roi sylw i'r cwestiwn hwn a chadarnhau pa asesiadau a wnaed, pa effaith y credwch y gallai'r cynlluniau ei chael ar fusnesau ac economi Cymru, a pha gamau sydd wedi'u cynllunio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu cael y wybodaeth ddiweddaraf am statws cynlluniau gweithredu ar gyfer y Cynllun Dychwelyd Ernes yng Nghymru.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Copi at: Llyr Gruffydd, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg